Drwy e-bost

Jeremy Miles
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Weinidog

Cymwys ar gyfer y Dyfodol - Cymwysterau iaith Gymraeg

Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch diweddaru chi am ein gwaith i lunio ystod o gymwysterau iaith Gymraeg y dyfodol i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru, ac i ofyn am eglurhad ar flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru i helpu i lywio ein penderfyniadau yn y maes hwn.

Fel yr esboniwyd yn ein llythyr atoch dyddiedig 13 Hydref, rydym wedi cadw'n penderfyniad mewn perthynas â chymwysterau iaith Gymraeg tan fis Ionawr 2022. Mae hyn wedi caniatáu adolygiad pellach o opsiynau posibl wedi'u llywio gan uchelgeisiau polisi'r Llywodraeth Dros y ddau fis diwethaf, rydym wedi cysylltu â'ch swyddogion i drafod bwriadau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer continwwm Cymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. O'r trafodaethau hyn, rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn gweld yr angen am gymhwyster ar wahân, wedi'i deilwra i anghenion disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae dull gweithredu o'r fath yn adlewyrchu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys dwy set wahanol o ddisgwyliadau ar gyfer y cynnydd y disgwylir i ddysgwyr ei wneud yn yr iaith Gymraeg yn dibynnu a ydynt yn astudio mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, neu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Ochr yn ochr â'r trafodaethau hyn, rydym wedi adolygu'r opsiynau ar gyfer cymwysterau i bobl ifanc 14-i-16 oed, gan gynnwys y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt. Fel rhan o'r gwaith rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys:

- Ymarferwyr Cymraeg o leoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg
- Uwch dimau arwain ysgolion
- Estyn
- Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- CBAC
- Consortia Addysg Rhanbarthol
- Cynrychiolwyr addysg uwch
- Y Rhwydwaith Seren
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Er bod gennym ragor o drafodaethau wedi'u trefnu gyda rhanddeiliaid yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, rydym bellach yn gallu amlinellu dull posibl o lunio ystod o gymwysterau iaith Gymraeg y dyfodol. Mae'n bwysig pwysleisio ar hyn o bryd nad ydym wedi ffurfio barn derfynol ar y ffordd iawn ymlaen, ac y bydd y penderfyniad terfynol yn fater i'n Bwrdd pan fydd yn ystyried yr opsiynau posibl ddiwedd mis Ionawr 2022.

Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu argymell i'n Bwrdd ein bod yn creu un fframwaith o gymwysterau i adlewyrchu un continwwm o addysgu a dysgu Cymraeg. Byddai'r fframwaith hwn yn cynnwys:

- Cymhwyster TGAU ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Byddai hwn yn gymhwyster TGAU integredig newydd a fyddai'n cyfuno iaith a llenyddiaeth. Byddai'r un maint a lefel her â'r cymhwyster TGAU iaith a llenyddiaeth Saesneg integredig newydd.
- Cymhwyster TGAU ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg. Byddai'r cymhwyster newydd hwn yn cynnal ac yn adeiladu ar lefel yr hyfedredd iaith a gyflawnir yn y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith cyfredol.
- Cymhwyster 'pontio' Cymraeg newydd y gellid ei gymryd yn ogystal â'r cymhwyster TGAU newydd ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Byddai hwn yn gymhwyster newydd a fyddai'n cael ei ddylunio i 'bontio' y ddau gymhwyster TGAU newydd a amlinellir uchod. Gellid cymryd y cymhwyster hwn i ymestyn dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sydd â'r gallu a/neu'r diddordeb i ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg ymhellach. Byddai'r cymhwyster yn debygol o fod yn llai o ran maint na chymhwyster TGAU nodweddiadol. Byddai'n cael ei ddylunio a'i gymhwyso fel cymhwyster ychwanegol gan ddysgwyr sy'n gwneud cynnydd da yn eu dysgu Cymraeg – yn debyg i'r ffordd y mae'r cymhwyster Mathemateg Ychwanegol Lefel 2 yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion ar hyn o bryd. Byddai'r cymhwyster yn ategu ac adeiladu ar y dysgu sy'n digwydd o fewn y prif gymhwyster TGAU a byddai'n cefnogi dysgwyr i symud ymlaen ymhellach ar hyd y continwwm Cymraeg.

Er mwyn ein helpu i benderfynu a fyddai'r dull a amlinellir uchod yn cynnig y dewis mwyaf priodol i ganolfannau a dysgwyr, mae arnom angen mwy o eglurder ar flaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu Cymraeg.

Bydd angen i ni gyfleu ein penderfyniad ar sail polisi cytûn y Llywodraeth (fel y'i nodwyd yn ein hadroddiad penderfyniadau). Felly bydd angen dogfennu disgwyliadau'r polisi a'u rhannu'n gyhoeddus fel y gallwn gytuno pa gyfres o gymwysterau fydd fwyaf tebygol o'u cyflawni.

Er mwyn ein helpu i werthuso'r dull a amlinellir uchod (ochr yn ochr ag opsiynau eraill), mae angen cadarnhad o safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cwestiynau canlynol.

A yw Llywodraeth Cymru:

1. Yn cydnabod yr angen am ddarpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg?

2. Yn derbyn yr achos dros ddau gymhwyster TGAU ar wahân – un ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac un ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog?
3. Am i ni edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu cymhwyster a fyddai'n pontio'r ddau gymhwyster TGAU – i ymestyn disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg?

Bydd ymateb cynnar ar y materion hyn yn galluogi ein Bwrdd i wneud penderfyniad effeithiol ar y ffordd ymlaen ar gyfer y maes hwn erbyn diwedd mis Ionawr. Bydd hyn yn ei dro yn caniatáu gwaith ar gyd-adeiladu unrhyw gymhwyster newydd i gadw i fyny â datblygiadau ar gyfer TGAU a chymwysterau 'gwneud-i-Gymru' newydd eraill.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n deialog gadarnhaol gyda'ch swyddogion dros yr wythnosau nesaf wrth i ni weithio i gytuno ar yr ystod o gymwysterau iaith Gymraeg y dyfodol.

Yn gywir

David Jones
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr